

## **Menter Iaith Sir Ddinbych yn ennill cefnogaeth ariannol gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri**

Heddiw bu i Fenter Iaith Sir Ddinbych dderbyn £59,800.00 gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri tuag at gynllun cyffrous Yr Amgueddfa Atgofion. Datblygwyd y cynllun ar y cyd ag Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy gyda chefnogaeth hefyd gan yr Asiantaeth Datblygu Gwledig Lleol Cadwyn Clwyd. Fel rhan o'r cynllun bydd 18 mis o weithgareddau'n cael eu trefnu yn ymwneud â hanes ffermio a bywyd cefn gwlad yn Sir Ddinbych.

Sir wledig ydi Sir Ddinbych yn ei hanfod ac mae ffermio wedi bod yn rhan annatod o'r economi leol ac o fywyd y trigolion ers cyn cof. Fodd bynnag mae'r economi a'r gymuned wedi newid cymaint yn ystod bywydau'r hen ffermwyr sy'n dal ar ôl. Yr hen ffermwyr hyn ydi'r bobl olaf ar dir y byw sy'n cofio godro a chneifio â llaw, cynaeafu gyda pheiriannau dyrnu, codi tas wair, aredig gyda cheffylau a phrynu eu tractor cyntaf. Bydd y cynllun yn amlygu'r cysylltiad rhwng pobl, cymunedau, iaith a thir. Mae trin y tir wedi siapio'n cefn gwlad yn ogystal â'n cymunedau gwledig. Mae cyswllt anorfod wedi bod rhwng y ddwy elfen ac mae'r cysylltiad yn parhau hyd heddiw. Roedd cadw a saethu anifeiliaid hela hefyd yn rhan bwysig o waith rheoli rhostiroedd grug traddodiadol yn Llantysilio, Y Berwyn, Mynydd Hiraethog a Bryniau Clwyd. Bydd y cynllun yn gyfle i daflu goleuni ar gadw a saethu anifeiliaid hela yn ogystal â ffermio.

Bydd cyfle i blant a phobl o bob oed gydweithio ar y cynllun. Bydd pobl ifanc yn derbyn hyfforddiant ar sut i gasglu atgofion a chadw lluniau ar gyfrifiaduron, gan gydweithio â ffermwyr lleol – y rhai hyn yn enwedig. Diben y cydweithio fydd cadw cofnod manwl o'r hen ffordd o fyw a defnyddio atgofion personol a hen luniau i greu archif gwych o'r 1940au hyd at heddiw.

Bydd arddangosfa symudol yn cael ei datblygu ynghyd â phhecyn 'amgueddfa fechan' hyblyg. Yn y pecyn hwn bydd llyfr troi llawn hen luniau a bydd arddangosfa ddigidol gyda sain. Bydd lluniau a chyfweliadau newydd yn cael eu hychwanegu i'r arddangosfa ddigidol wrth i'r cynllun fynd rhagddo. Bydd y lluniau a'r atgofion yn cael eu casglu mewn cyfres o ddigwyddiadau casglu atgofion fel yn ocsiwn Ffermwyr Rhuthun, Amgueddfa Llangollen, Oriel Corwen, stonidn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn Sioe Dinbych a Fflint ac wrth gwrs yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych yn 2013.

Mae'r Iaith Gymraeg yn amlwg yn rhan annatod o'r cynllun. Bobl oedrannus cefn gwlad ydi'r unig rai ar ôl sy'n cofio dulliau ffermio a ffordd o fyw eu hardaloedd yn yr oes a fu. Rhain hefyd ydi'r genhedlaeth olaf sy'n cofio hen draddodiad llafar eu bro yn ei goll gyfoeth lliwgar. Roedd gan lawer ardal eiriau hollol unigryw oedd yn ymwneud â ffermio a'r diwylliant oedd yn gysylltiedig â hynny. Mae'n bwysig iawn casglu a chadw atgofion a lluniau am ffordd o fyw ffermwyr a thafodiaith yr ardaloedd tra mae'n dal yn bosib gwneud hynny. Y rheswm dros hyn ydi oherwydd bod cymaint o

newidiadau sylweddol wedi bod i fywydau ffermwyr a thafodieithoedd dros y blynyddoedd. Os na fyddwn yn casglu a chadw'r wybodaeth yma mae'n annhebygol iawn y bydd y traddodiadau hyn yn cael eu trosglwyddo i bobl fengach yr ardal fel a wnaed yn y gorffennol. Gyda chymorth Amgueddfa Werin Cymru bydd yr arddangosfeydd hyn, yn enwedig yr arddangosfeydd llafar, yn adnoddau unigryw gwych i'r ardal hon ac i Gymru gyfan.

Dywedodd Nerys Davies, Cadeirydd Menter Iaith Sir Ddinbych "Yr ydym fel menter yn falch iawn o glywed ein bod wedi derbyn grant mor sylweddol a fydd yn ein galluogi ni i ddatblygu prosiect cyffrous iawn, sef yr Amgueddfa Atgofion. Yr ydym fel holl fentrau iaith Cymru yn ddibynnol iawn ar grantiau; heb y nawdd ariannol yma, ni fyddai modd o gasglu a chadw tystiolaeth am gyfoeth treftadaeth amaethyddol y Sir. Bydd yr arddangosfa yma ar gael nid yn unig i drigolion Sir Ddinbych, ond bydd modd i Gymru gyfan werthfawrogi cyfraniad trigolion Sir Ddinbych i fywyd amaethyddol Cymru yn ystod Eisteddfod Genedlaethol, Dinbych 2013. Edrychwn ymlaen at weld y prosiect yma yn datblygu yn ystod y misoedd nesaf ".

Ac ychwanegodd David Shiel, Uwch Swyddog Cefn Gwlad AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy "Rydym yn falch iawn o fod yn gweithio gyda Menter Iaith Sir Ddinbych ar y prosiect cyffrous hwn. Mae cyfoeth o wybodaeth a dealltwriaeth o fywyd a thraddodiadau gwledig o fewn y gymuned amaethyddol yn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a straeon difyr iawn i'w hadrodd. Mae'r gymuned ffermio wedi cynnal ein ffordd o fyw am genedlaethau, wedi darparu'r amrywiaeth o gynefinoedd sy'n gwneud ein cefn gwlad yn gymaint o hafan i fywyd gwyllt ac mor eithriadol o hardd. "

Wrth esbonio pwysigrwydd derbyn grant HLF, fe ddywedodd Jennifer Stewart, Pennaeth yr HLF yng Nghymru: "Mae'r prosiect yma'n amlygu'n berffaith natur hollbresennol treftadaeth - ei bod hi o'n cwmpas ni'n bob man. Nid mater o adeiladau ac arteffactau gwerthfawr yn unig ydi treftadaeth - mae o'n amgylchedd, yn ffordd o fyw, yn bobl hefyd. Mae o'n hanfodol bwysig i gofnodi atgofion a gwybodaeth pobl y gymuned gwledig yma; dim ond felly y byddwn ni'n gallu dysgu a deall sut y daeth hi i fod yr hyn ydi hi. Mi rydw i'n hynod o falch bod HLF yn gallu cefnogi'r prosiect ac yn edrych ymlaen at glywed rhai o'r straeon a fydd yn dod i'r amlwg dros y misoedd nesaf."

## **Nodiadau i'r Golygydd**

Mae'r Mentrau Iaith yn fudiadau neu grwpiau lleol sy'n cynnig cymorth a chefnogaeth i gynyddu a datblygu'r defnydd o'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd. Mae Menter Iaith fel arfer yn gweithio mewn un sir ac yn adlewyrchu awydd trigolion yr ardal i wneud fwy o ddefnydd o'r iaith. Mae'r Mentrau yn cynnig cyngor a chymorth i unigolion, mudiadau a chwmnïau i fedru cynnal amrywiaeth o weithgareddau i hyrwyddo'r iaith.

Mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn ardal o 388 cilomedr sgwâr sy'n cael ei chydabod am ansawdd ei thirlun eithriadol. Mae'n un o 5 AHNE yng Nghymru ac mae'n ymestyn o Fryn Prestatyn yn y gogledd i Langollen a Chorwen yn y de. Mae'n cynnwys Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa a Safle Treftadaeth y Byd Traphont a Chamlas Pontcysyllte a Moel Famau a Thŵr y Jiwbilf.

Am fwy o wybodaeth, lluniau a chyfweliadau, cysylltwch â

**Gill Stephen**

**Prif Swyddog, Menter Iaith Sir Ddinbych**

**Ffôn:01745 812822 [gill.stephen@menteriaithdinbych.co.uk](mailto:gill.stephen@menteriaithdinbych.co.uk)**

## Gwybodaeth am Gronfa Dreftadaeth y Loteri

Gan ddefnyddio arian wedi'i gasglu drwy'r Loteri Genedlaethol, mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn cynnal a newid ystod eang o gynlluniau yn ymwneud â hanes gall genedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol gymryd rhan ynddyn nhw, dysgu ohonyn nhw a'u mwynhau. Rydym yn buddsoddi mewn pob math o gynlluniau, atyniadau a meysydd yn ymwneud â hanes, fel amgueddfeydd, parciau, mannau hanesyddol, archaeoleg, byd natur a thraddodiadau diwylliannol. Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi cyfrannu £4.7biliwn at 300,000 o gynlluniau ymhob cwr o Brydain. Gwefan y Gronfa: [www.hlf.org.uk](http://www.hlf.org.uk)

Am fwy o wybodaeth am Gronfa Dreftadaeth y Loteri cysylltwch â [Stephen Barlow](mailto:Stephen.Barlow@hlffund.org) ar 029 2023 4165.



Supported by

**The National Lottery**<sup>®</sup>  
through the Heritage Lottery Fund

Cefnogwyd gan

**Y Loteri Genedlaethol**  
trwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri



**Bryniau Clwyd a  
Dyffryn Dyfrdwy**  
Clwydian Range  
and Dee Valley

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol  
Area of Outstanding Natural Beauty



Asiantaeth Datblygu Gwledig  
Rural Development Agency